| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Medi 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cyng. Barry Mellor / Jane Hodgson |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans |
| **Awdur yr Adroddiad** | Jane Hodgson |
| **Teitl** | **Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Cynllun Ynni Ardal Leol a ddatblygwyd ar gyfer Sir Ddinbych, fel rhan o brosiect Llywodraeth Cymru. Mae'n argymell cymeradwyo Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid cymeradwyo Prif Adroddiad ac Adroddiad Technegol Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych (Atodiadau 1 a 2). Mae'r Cabinet wedi nodi dechreuad y cynllun ar 21 Chwefror 2023.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo Prif Adroddiad ac Adroddiad Technegol Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych (Atodiadau 1 a 2), gan ddeall bod y camau gweithredu sydd wedi'u rhoi i Gyngor Sir Ddinbych yn amodol ar sicrhau a chynnal y cyllid angenrheidiol.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Y cynnydd hyd yma

4.1. Mae Cynllunio Ynni Ardal Leol yn ddull system ynni gyfan a yrrir gan ddata, sy’n seiliedig ar dystiolaeth sy’n ceisio nodi’r llwybr mwyaf effeithiol i’r ardal leol gyfrannu at gyrraedd y targed sero net cenedlaethol, yn ogystal â chyrraedd ei darged sero net lleol [seiliedig ar ardal].

4.2. Nod hyn yw: rhoi cyfrif am amodau lleol a chenedlaethol i gyflawni sero net; ystyried sut y gall cydweithredu ag ardaloedd cyfagos ddod â llwyddiant; a chynyddu ymwybyddiaeth budd-ddeiliaid lleol i gynyddu caniatâd a hwyluso ymrwymiadau credadwy i gyflawni'r cynllun.

4.3. Mae’r cynllunio yn cyfrannu at strategaethau ynni rhanbarthol, sy’n cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol: Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, targedau newid hinsawdd, a Chynllun Ynni Cenedlaethol 2024.

4.4. Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli contract gydag ymgynghorwyr sy’n datblygu’r cynllun ar gyfer Sir Ddinbych a siroedd eraill y gogledd. Cafodd y cynllun ei lunio gan yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Arup, yn dilyn dull a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac roedd yn seiliedig ar fodelu, data a chynlluniau a syniadau budd-ddeiliaid, yn cynnwys rhai a gafwyd mewn gweithdai.

4.5. Bydd y cynlluniau dan berchnogaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru. Eu nod yw bod yn arf canllaw ar y ffordd orau o weithio tuag at system ynni wedi'i datgarboneiddio'n llawn erbyn 2050. Bydd yr holl gynlluniau’n cael eu cydgrynhoi i hysbysu datblygiad y Cynllun Ynni Cenedlaethol erbyn diwedd y flwyddyn.

4.6. Gofynnir i awdurdodau lleol gymeradwyo'r cynlluniau drwy'r broses briodol. Mae'r cynllun wedi'i adolygu gan Fwrdd Sir Ddinbych Werddach, y Gweithgor Gwleidyddol Trawsbleidiol (Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol), y Grŵp Cynllunio Strategol a’r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

4.7. Mae fersiynau terfynol y Cynllun Ynni Ardal Leol a'r Adroddiad Technegol ynghlwm fel atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno.

### Camau nesaf – camau ac amserlen ar gyfer y dyfodol

4.8. Mae sesiwn friffio i aelodau wedi'i drefnu ar gyfer diwedd yr hydref i roi cyfle iddynt ddysgu mwy ac ystyried manylion y cynllun.

4.9. Gydag Uchelgais Gogledd Cymru a siroedd eraill yng Nghymru, byddwn yn datblygu mecanwaith cyflawni/monitro i symud camau gweithredu'r cynllun yn eu blaen, yn cynnwys:

- Cytuno ar strwythur llywodraethu
- Alinio Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru (a'r cynllun gweithredu) â'r Cynllun Ynni Ardal Leol
- Nodi dangosyddion perfformiad allweddol
- Grŵp Llywio Rhanbarthol

4.10. Mae disgwyl i'r cynllun gael ei adolygu ymhen pum mlynedd, wrth i ni nesáu at 2030 a therfyn amser targed sero carbon net y sector cyhoeddus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych yn cyfrannu at thema Cynllun Corfforaethol 2022-2027 'Sir Ddinbych Wyrddach', gan ddarparu'n benodol gyfraniad cadarnhaol i'r Strategaeth Hinsawdd a Natur (2021/22-2029/30) drwy leihau allyriadau ar draws Cyngor Sir Ddinbych. Mae hefyd yn cefnogi thema 'Sir Ddinbych Iewyrchus', gyda'r cyfle i ysgogi twf economaidd a thyfu economi werdd Sir Ddinbych.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych yn cynnwys costau dangosol lefel uchel. Mae'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun yn cael eu neilltuo i lawer o sefydliadau yn y sir ac ni ddisgwylir i'r cyllid ar eu cyfer gael ei ddarparu gan y Cyngor a'r sector cyhoeddus yn unig.

6.2. Bydd y camau gweithredu sydd wedi'u neilltuo i Gyngor Sir Ddinbych yn cyd-fynd â'n Strategaeth Hinsawdd a Natur ac yn amodol ar sicrhau a chynnal y cyllid angenrheidiol. Bydd cyflawni'r camau gweithredu yn rhywbeth ar gyfer

amrywiaeth o fudd-ddeiliaid ac yn amodol ar gefnogaeth wleidyddol ac ariannol ddigonol.

6.3. Byddai angen asesiadau dichonoldeb llawn ar gyfer prosiectau penodol. Byddai unrhyw gost i Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer prosiectau'r cynllun yn amodol ar achos busnes cadarn.

6.4. Byddai angen gwaith dichonoldeb ychwanegol a chynyddu adnoddau staffio i sicrhau bod rhaglen gyflenwi gref yn ei lle. Mae cyflawni'r holl brosiectau a chamau gweithredu a nodwyd, ac sydd eto i'w nodi, yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.

6.5. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i alinio strategaethau a pholisïau i gyfrannu at leihau allyriadau carbon ar draws y sir, fel y trafodwyd yn y Grŵp Cynllunio Strategol ym mis Gorffennaf 2024 (gweler Atodiad 4).

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Daw'r Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) i'r casgliad bod y Cynllun Ynni Ardal Leol yn gynllun cydweithredol hirdymor (hyd at 2050) sy'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy hy cynnig camau gweithredu sy'n ceisio diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n cael effaith gadarnhaol ar bum nod llesiant ac yn cael effaith niwtral ar ddau nod llesiant. Mae'r Asesiad o Effaith ar Les hwn yn dangos sut mae cynigion y cynllun yn rhoi cyfle ar gyfer: datgarboneiddio cyflenwad a darpariaeth ynni yn Sir Ddinbych, swyddi newydd nad ydynt yn rhai dros dro/nad ydynt yn dymhorol, gwell effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi a all wella ansawdd bywyd ac iechyd a lleihau gofynion ynni, lleihau llygredd aer a mwy o wydnwch ynni. Ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig, byddai angen astudiaethau dichonoldeb, a byddai'r astudiaethau hyn neu brosiectau cysylltiedig yn debygol o fod angen asesiad effaith pellach.

7.2. Ymgymerwyd â'r Asesiad o Effaith ar Les gan swyddogion perthnasol, ar ôl derbyn yr adroddiadau terfynol ar y Cynllun Ynni Ardal Leol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r cynllun wedi'i adolygu gan Fwrdd Sir Ddinbych Werddach, y Gweithgor Gwleidyddol Trawsbleidiol (Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol) a'r Grŵp Cynllunio Strategol. Mae adborth y Grŵp Cynllunio Strategol yn Atodiad 4.

8.2. Adolygodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau'r Cynllun Ynni Ardal Leol ar 5 Medi 2024. Nodwyd fod camau gweithredu'r cynllun yn cyd-fynd â Strategaeth Hinsawdd a Natur CSDd. Roedd y drafodaeth a'r ymholiadau yn mynd i'r afael ag addysg a rhannu gwybodaeth, a hydrogen gwyrdd. Pleidleisiodd y Pwyllgor o blaid yr argymhellion.

8.3. Yn allanol, crëwyd y cynllun gyda budd-ddeiliaid o Sir Ddinbych (ardal ddaearyddol). Roedd nodi ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid e.e. mewn gweithdai, yn rhan allweddol o'r broses o greu'r cynllun. Mae manylion wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Technegol (Atodiad 2).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau, bydd cynllun i ariannu rhaglen waith y Cyngor i alluogi cyflawni'r cynllun yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r camau nesaf.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nodir risgiau perthnasol yn Atodiad 5.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 – y pŵer i wneud unrhyw beth y mae CSDd yn ei ystyried sy'n debygol o hybu a gwella lles amgylcheddol ei ardal.